| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Sylwadau o'r gweithdai craffu | |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Llunio rhaglen craffu**<br>**A1 –** Dylai blaen raglen y Cabinet a Chynllun y Cyngor gael rhagor o ddylanwad ar flaen raglen y pwyllgorau craffu cyhoeddus fel bod allbwn craffu yn bwydo i mewn i benderfyniadau a gynllunnir gan y Cabinet. | Mae gweithdai blynyddol y pwyllgorau Craffu yn rhoi sylw manwl i Gynllun y Cyngor, gan flaenoriaethu eitemau o'r Cynllun fel sy'n amserol i'w craffu.<br><br>Rydym eisoes wedi symud ymlaen gyda threfniadau i gryfhau blaen raglen y Cabinet er mwyn gwella'r gyd-berthynas rhwng blaen raglen y Cabinet a Chraffu.<br><br>Bydd templed newydd ar gyfer adroddiadau'r Cabinet yn cynnwys cyfeiriad penodol at faterion a godwyd gan y pwyllgorau craffu yn weithredol o Fedi 2023 ymlaen.<br><br>Bydd cerrig milltir blynyddol sydd i'w cyflawni ar gyfer Cynllun y Cyngor yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau a'r Swyddogion Craffu perthnasol. | Cyd-weld gyda'r camau gweithredu sydd eisoes wedi eu nodi.<br><br>Angen ychwanegu fod yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Adran yn mynychu'r pwyllgor i fod yn atebol i'r craffwyr, ac felly nad oes angen i bopeth fwydo yn uniongyrchol i gyfarfod y Cabinet.<br><br>Efallai bod lle i amlygu ymhellach pa eitemau sydd o gynllun y cyngor ac/ neu yn cael eu blaen graffu.<br><br>Gweler sylwadau ar gyfer argymhelliad 6 hefyd. | |
| A6 | **Olrhain effaith craffu**<br>**A6** - Dylid cryfhau'r broses o adrodd ar benderfyniadau'**r** pwyllgorau craffu a mabwysiadu trefn olrhain ffurfiol, er mwyn cael y gwerth am arian gorau ac amlygu'n gyhoeddus cyfraniad y gyfundrefn graffu i drefniadau llywodraethu'r Cyngor. | Mae nifer o wahanol ffactorau yn dod ynghyd er mwyn gwella ein trefniadau ar gyfer olrhain effaith craffu.<br><br>• Byddwn yn trefnu hyfforddiant i'r Cadeiryddion craffu ar sut i lunio argymhellion clir ac/neu sut i gyfeirio mater i'r Cabinet | Cydnabyddiaeth fod lle i fod yn creu argymhellion mwy clir a manwl yn dilyn craffu ar rai eitemau.<br><br>Dealltwriaeth fod craffu da yn digwydd gyda nifer o wahanol eitemau, lle mae'r aelodau craffu yn cydweld gyda chyfeiriad yr Aelod Cabinet – a bod 'derbyn yr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bellach mae cyfeiriad penodol mewn adroddiadau Cabinet at yr ystyriaethau godwyd gan bwyllgorau craffu.<br><br>• Mae dyletswydd ar Aelodau'r Fforwm Craffu i fod yn hunan arfarnu eu perfformiad, gan gynnwys asesu effaith craffu.<br><br>• Byddwn yn ystyried rôl Cadeiryddion Craffu wrth gyflwyno sylwadau / argymhellion i gyfarfodydd y Cabinet ar faterion a flaen-graffwyd. | adroddiad gan nodi'r sylwadau' hefyd yn arwain at graffu effeithiol – ond bod lle i wella'r ddealltwriaeth hon ar draws yr holl aelodau.<br><br>Ystyried rôl i'r Cadeirydd neu'r is-gadeirydd i fod yn crynhoi sylwadau ar ddiwedd eitem i weld a oes argymhelliad mwy penodol yn dod ar ddiwedd yr eitem.<br><br>Awgrym o'r angen i ddatblygu trefn ffurfiol i dracio argymhellion o graffu a sicrhau ymatebion gan yr Aelod Cabinet/ y Cabinet.<br><br>Cefnogaeth i rôl y Cadeirydd i fynychu cyfarfod Cabinet pan fo eitem a flaen-graffwyd. | |
| **A2** | **Amlygu gwybodaeth perfformiad**<br>**A2 –** Dylid rhoi amlygrwydd uwch i wybodaeth perfformiad o fewn y pwyllgorau craffu cyhoeddus er mwyn herio'r cynnydd a wneir. | Gwaith eisoes yn symud yn ei flaen gan fod y cyfarwyddwyr corfforaethol yn mynychu'r cyfarfodydd herio perfformiad ar y cyd gyda'r Aelodau Craffu, gyda'r cyfarwyddwyr i gynorthwyo'r craffwyr i adnabod materion sydd i'w craffu ymhellach.<br><br>Rhoddir ystyriaeth bellach i adrodd yn gyhoeddus wrth i'r trefniadau herio perfformiad gael eu datblygu a'u haddasu. | Trefniadau presennol o fynychu'r cyfarfodydd herio perfformiad yn achlysurol ddim yn gweithio – yn arbennig o ran trefniadau adrodd yn ôl i'r cyfarfod anffurfiol.<br><br>Angen arweiniad annibynnol cryf gan y cyfarwyddwyr corfforaethol i gynorthwyo Aelodau i adnabod materion i'w craffu ymhellach.<br><br>Angen rhoi ystyriaeth i - a) adrodd yn ôl o'r cyfarfodydd i'r pwyllgor | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | cyhoeddus yn ffurfiol neu b) cynnwys adroddiadau perfformiad yn y pwyllgorau ffurfiol (2 waith y flwyddyn) | |
| **A3** | **Hyfforddiant**<br>**A3 –** Dylid defnyddio darparwyr priodol boed yn fewnol neu yn allanol i gyflenwi hyfforddiant mewn meysydd arbenigol fel sgiliau cwestiynu, materion ariannol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn cynyddu hyder aelodau i herio yn effeithiol. | Mae rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant yn cael ei darparu ar gyfer Cynghorwyr, gyda'r ddwy flynedd gyntaf yn dilyn etholiad bob amser yn drwm. Defnyddir darparwyr proffesiynol i gyflenwi hyfforddiant, boed yn swyddogion mewnol neu allanol.<br><br>Bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu yn unol â'r angen/gofyn gan ddewis y darparwyr mwyaf addas, boed yn fewnol neu'n allanol. | Gweler A6 – hyfforddiant ar gyfer llunio argymhellion cryf wedi cael ei gynnal i'r Cadeiryddion a'r is-gadeiryddion.<br><br>Yn ogystal, mae trefniadau'n cael eu datblygu i gynnal hyfforddiant Cadeirio'n effeithiol a hyfforddiant 'sut i gwestiynu mewn pwyllgorau craffu'. Bydd yr hyfforddiant cwestiynu yn cynnwys elfen ar yr ystyriaethau deddfwriaethol.<br><br>Yn ychwanegol yn sgil y trafodaethau nodir yr angen i gynnal hyfforddiant ar ddatgan buddiant mewn pwyllgorau craffu. | |
| **A4** | **Cryfhau ystyriaethau ddeddfwriaethol**<br>**A4 –** Dylid adolygu prosesau craffu i sicrhau bod pwyslais briodol ar ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hwy. | Byddwn yn parhau i atgoffa'r Cynghorwyr o'r gofynion yn yr hyfforddiant blynyddol.<br><br>Gwaith eisoes yn symud yn ei flaen gan ein bod eisoes yn cynnwys taflen i atgoffa'r Cynghorwyr o'r ystyriaethau perthnasol wrth rannu rhaglen y cyfarfod gyda hwy. | | |
| **A5** | **Ymchwiliadau craffu**<br>**A5 -** Dylid ystyried cynnal nifer uwch o ymchwiliadau gan wahodd nifer gyfyngedig o aelodau i ymuno â'r grŵp tasg a gorffen o blith pob pwyllgor craffu neu'r holl aelodau, fel bod y sawl sydd â | Bu lleihad yn yr ymchwiliadau craffu a gynhaliwyd yn sgil cyfyngiadau covid-19. Blaenoriaethwyd ail gychwyn y gwaith craffu ffurfiol yn y pwyllgorau. Penderfynwyd ail gychwyn ar yr ymchwiliadau craffu ar ddechrau tymor y Cyngor newydd. | Roedd cefnogaeth i gynnal mwy o ymchwiliadau (a mwy o bwyllgorau) er na fydd gwneud y ddwy elfen yn bosib.<br><br>Mae her amlwg ynghylch amser aelodau i ymrwymo i ymchwiliadau. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | diddordeb yn y maes yn cael cyfle i gymryd rhan a chynnal brwdfrydedd. Bydd hyn yn gyfrwng i ymgysylltu efo'r cyhoedd yn ogystal. | Mae trefniadau cyfredol ar gyfer ymchwiliadau yn golygu ein bod yn ceisio adnabod aelodau o blith y pwyllgorau ar gyfer ymchwiliadau, gan ymestyn y gwahoddiad i'r holl aelodau os nad oes diddordeb digonol. Mae ein ymchwiliadau eisoes yn gyfrwng i gryfhau'r ymgysylltu gyda'r cyhoedd. | Mae "diddordeb" a "dealltwriaeth am y maes" yn gallu bod yn rhy agos ar adegau – gweler uchod ynghylch datgan buddiant.<br><br>Rhaid ystyried adnoddau (Cynghorwyr, swyddogion craffu a swyddogion eraill) ar gyfer ymchwiliadau.<br><br>Cydnabyddiaeth ei bod yn anodd i Gynghorwyr adnabod pa bynciau sy'n synhwyrol ar gyfer ymchwiliad craffu a bod angen mwy o arweiniad am hyn. Mae angen codi ymwybyddiaeth y Craffwyr o'r camau i'w dilyn o ran adnabod/blaenoriaethu ymchwiliadau a grwpiau tasg a gorffen. | |
| | | | | |